PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/cy/news


Profiad Myfyrwyr Gorau yn y Wlad 2012

# NEWYDDION Aber

*Aberystwyth… un o'r llefydd gorau yn y byd i fod yn fyfyriwr*

RHIFYN 8
Gorffennaf 2012

4 Cymrodyr i'w hanrhydeddu


5 Dathlu gwaith cyhoeddwyr Cymru


8 Cyfnewid


10 Putin 2.0


14 Y Ffagl Olympaidd yn goleuo Aber


GWYDDOR CHWARAEON ac YMARFER CORFF

## Aur y Byd

Gallai techneg ymgynhesu newydd sy'n gwneud gwaed athletwr yn fwy asidig, brofi yn holl bwysig yn y ras am aur yng ngemau Olympaidd Llundain 2012.



*Dr Mark Burnley (chwith) yn cyflawni'r dechneg cynhesu preimio ar Gruff Lewis, sy'n gweithio yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol ac yn feiciwr lled-broffesiynol.*

Mae Dr Mark Burnley, darlithydd mewn Ffisioleg Ymarfer Corff yn yr Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer (SES) wedi bod yn astudio'r ymarferion dwysedd uchel a elwir yn "preimio".

Ynghyd ac ymchwilwyr o Brifysgol Brighton a Chaerwysg, mae wedi bod yn astudio sut mae preimio yn cynyddu crynodiad o lactad yn y gwaed, gan wneud y gwaed yn asidig, sydd yn gwella perfformiad yn y pen draw.

Mae'r gwaith yn gwella perfformiad mewn unrhyw gamp chwaraeon sy'n para o tua dwy funud hyd at tua 30 munud.

Mewn stadiwm athletau, mae hyn yn golygu y gallai pob camp o'r 800 metr i'r 10,000 metr gael eu gwella drwy ymarferion preimio. Bydd llawer o gampau beicio a rhwyfo hefyd yn cael eu gwella drwy ymarferion preimio.

"Rydym wedi bod yn astudio ymarferion preimio yn Aberystwyth ers sefydlu'r Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff yma yn 2002," meddai Dr Burnley.

"Drwy weithio ar y cyd â'r Athro Andy Jones o Brifysgol Exeter a phennaeth cyntaf yr adran yn Aberystwyth, yr Athro Jonathan Doust, sydd bellach ym Mhrifysgol Brighton, rydym wedi darparu tystiolaeth glir o effeithiolrwydd yr ymarfer dwysedd uchel wrth baratoi ar gyfer perfformiad chwaraeon.

Mae'r ymchwil yma wedi cael ei amlygu mewn adroddiad sy'n dangos effaith ymchwil prifysgolion a datblygiad chwaraeon ar y Gemau Olympaidd a Paralympaidd gan gynnwys diwydiant chwaraeon y DG o'r enw *Cefnogi stori lwyddiant y DG: Effaith ymchwil prifysgol a datblygu chwaraeon*.

I lawrlwytho copï o'r adroddiad, ewch i www.universitiesweek.org.uk

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Dr Mark Burnley ar 01970 628560 / mhb@aber.ac.uk

The Queen's Anniversary Prizes
For Higher and Further Education
2009

CYFATHREBU a MATERION CYHOEDDUS

Cyhoeddir NEWYDDION Aber gan **Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth.

Ffon 01970 621763.
E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o NEWYDDION Aber ar gael ym mis Medi 2012.

Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw dydd Mercher 18fed Gorffennaf.

NEWYDDION PRIFYSGOL

# Y llifogydd yn cymell symud Adnoddau Dynol

Mae'r llifogydd enbyd a brofwyd yn ddiweddar yn Aberystwyth a'r cyffiniau wedi peri i Adran Adnoddau Dynol y Brifysgol symud i'r Parc Gwyddoniaeth yn llawer cynharach nag y bwriadwyd.

Perodd y llifogydd mawr ym Mhlas Gogerddan yn gynnar ar y 9fed o Fehefin i nifer sylweddol o gabinedau ffeiliau yn llawn o wybodaeth bersonel gael eu symud o'r adeilad ar frys o dan arolygiaeth Gwasanaeth Tân ac Achwb Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Gelli Gandryll.

Roedd dŵr ar rai o'r prif ffyrdd i mewn i Aberystwyth hefyd yn achos pryder i fyfyrwyr oedd yn paratoi i adael y Brifysgol ar ddiwedd tymor yr haf.



*Dŵr i fyny at y ffenestri ym Mhlas Gogerddan*



*Blaendolau tan ddŵr*

Gwnaed trefniadau gan y Swyddfa Lety i roi lloches i'r rheiny nad oeddent yn medru teithio, a chynigiwyd llety, trwy Gyngor Sir Ceredigion, i deuluoed lleol oedd wedi'u gwneud yn ddi-gartref.

Medrodd y Brifysgol fod o gymorth hefyd i Grŵp Meddygol Ystwyth gan gynnig lleoliad dros dro ar gyfer ei meddygfa wedi i adeilad y feddygfa ym Mharc y Llyn lenwi â dŵr ar y prynhawn Sadwrn. Ymhen deuddydd yr oedd y grŵp wedi'i adleoli i gyn-swyddfeydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar gampws Gogerddan.

Mae dŵr ar gaeau chwarae Blaendolau yn ddelwedd eithaf cyffredin, ond bu i faint y llifogydd yma hefyd roi sioc i bawb.

Diolchodd Rebecca Davies, y Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Gwasanaethau Staff a Myfyrwyr, i bawb a fu'n cymryd rhan yn y broses o oresgyn y llifogydd. "O oriau mân dydd Sadwrn pan hysbysodd aelod o'n tim diogelwch nos ni fod llifogydd yng Ngogerddan, yr oedd ymdrechion staff y Brifysgol yn Hwrciwleaidd."

Fis yn ddiweddarach a phrin yw'r arwyddion sydd ar ôl o'r llifogydd a ddenodd sylw'r byd. Fodd bynnag, tu hwnt i lygaid y cyhoedd, parhau mae'r glanhau, fel y gwna'r gwaith o weithio gyda'r cwmniau yswriant.

DAEARYDDIAETH a GWYDDORAU DAEAR

# Astudiaeth llygredd

Mae ymchwilwyr o'r Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear wedi bod yn casglu samplau o bridd yn yr ardaloedd a effeithiwyd gan y llifogydd er mwyn deall os yw'r tir wedi'i halogi â llygredd o hen fwyngloddfeydd.

Dan arweiniad yr Athro Mark Macklin, Cyfarwyddwr y Ganolfan Dalgylch ac Ymchwil Arfordirol, mae'r tîm wedi bod yn edrych am olion o blwm, sinc, cadmiwm a chopper.

Cynhaliodd yr Athro Macklin a'i gydweithwyr astudiaeth debyg yn Swydd Efrog wedi i'r Afon Swale, sydd a'i dalgylch hefyd yn llawn o hen gloddfeydd, dorri'i glannau yn 2000. Canfuwyd fod y tir yno wedi'i lygru.

Mae'r Athro Macklin hefyd wedi galw am ganllawiau mwy manwl ar gyfer datblygiad ar leiniau llifogydd, yn enwedig mewn talgylchoedd bychain a serth fel talgylch yr afon Leri, sydd mewn perygl o orlifo'n sydyn yn ogystal ag afonydd llanw fel y Rheidol a'r Ystwyth isaf.

"Nid yw'r llifogydd o'r math yma'n gwbl newydd i ganolbarth Cymru nac ychwaith i ucheldiroedd y DG", dywedodd. "Bu llifogydd tebyg yn yr ardal ym mis Awst 1973 ac yn nodedig yng Ngorffennaf / Awst 1846 pan fu nifer o bobl farw a phan ddinistriwyd llawer o bethau yng nghanolbarth Ceredigion yn enwedig yn Llanon, Talsarn ac Aberaeron."

"Awgryma astudiaethau modeli y byddwn yn cael mwy o law haf trwm yn y dyfodol ond y mae'n ddiddorol nodi fod gwerthusiad o geoforffoleg hir-dymor, yn seiliedig ar gofnodion sy'n ymestyn yn ôl mwy na 250 mlynedd, yn awgrymu fod llifogydd ucheldirol eithafol, fel y rhai a effeithiodd ar ganolbarth Cymru ym Mehefin 2012, wedi ymddangos ar eu lleiaf aml yn ystod diwedd y ganrif ddiwethaf a dechrau'r ganrif hon.

"Os yw'r modeli'n gywir, gall pethau ond gwaethygu," ychwanegodd.



*Dr Simon Foulds yn cymryd samplau ar lannau'r Leri, uwchlaw Talybont.*

# Colofn yr Is-Ganghellor



Wrth imi ysgrifennu'r golofn hon, yr wyf yn ymwybodol ei bod hi'n agosáu at ddiwedd fy mlwyddyn gyntaf yn Aber - ac am flwyddyn wych.

Yr ydym wedi croesawu'r nifer mwyaf erioed o fyfyrwyr; mae gennym nifer o Benaethiaid Adrannau newydd yn eu lle; ac yr ydym yn y broses o gyfweld ar gyfer ystod eang o swyddi academaidd newydd. Rhwng Mai a Gorffennaf fe fyddwn yn croesawu mwy nag 80 o gydweithwyr posibl y dyfodol i Aber ar gyfer cyfweliadau a chyflwyniadau - ac mae safon yr ymgeiswyr wedi bod mor uchel nes ein bod, mewn rhai meysydd, wedi cynnig mwy o swyddi nac y bwriadwyd yn wreiddiol. Edrychaf ymlaen at rannu gwybodaeth bellach am ein cydweithwyr newydd yn yr Hydref. Fe fyddwn hefyd wedi dathlu nifer o gyraeddiadau gan ein staff ymchwil, ac wedi agor tri adeilad newydd, P5, IBERS Gogerddan, ac IBERS Penglais.

Wrth gwrs, yr ydym hefyd wedi wynebu rhai sialensiau - ond gyda'ch cymorth, eich cefnogaeth a'ch cyfraniad chi, dwi'n falch o fedru dweud ein bod ni wedi gwneud cynnydd yn ein hymateb i'r rhain, ac ein bod bellach mewn safle gwell i ddatblygu ein Prifysgol ar gyfer y dyfodol, tra, ar yr un pryd, yn diogelu ein profiad myfyriwr gwych.

Yr her fwyaf i bob Prifysgol yn y blynyddoedd nesaf fydd sefyll allan mewn torf, trwy fod yn eglur am yr hyn yr ydym yn ei gynrychioli. Trwy'r sesiynau "Llunio ein Dyfodol", roedd staff a myfyrwyr yn eglur iawn ynghylch eich blaenoriaethau ar gyfer Aberystwyth: ymysg y prif themâu oedd gwerthfawrogi ein pobl; datblygu poblogaeth uwchraddedig fywiog; tyfu'n fwy uchelgeisiol a hyderus, a bod yn llai petrus a gofalus. Yn seiliedig ar hyn, nid oes gennyf unrhyw bryderon ynghylch gallu Aberystwyth i ddatblygu a chyhoeddi ein hunaniaeth a'n gwerthoedd cadarnhaol yn y byd newydd sydd ohoni mewn Addysg Uwch. Mae datblygiad y Cynllun Strategol yn mynd yn ei flaen yn dda ac yr ydym yn rhagweld y bydd y cynllun yn barod ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Medi. Bydd hyn yn darparu eglurder ynghylch ein cyfeiriad strategol ac yn darparu targedau ar ein cyfer y medrwn gydweithio i'w cyflawni.

Mae'n rhaid cydweithio'n dda er mwyn cyrraedd y targedau hyn, a gwneud hynny mewn strwythurau sy'n caniatáu cymryd risgiau rheoledig a datganoli cyllidebau a phenderfyniadau. Daeth nifer dda i'r cyfarfodydd Ailgynllunio Academaidd, lle bu rhyngweithiad gwych rhwng y staff a'r myfyrwyr, a llif cyson o sylwadau, cwestiynau ac awgrymiadau. Mae'n galondid clywed nad yw pobl, at ei gilydd, yn cwestiynu'r angen am newid a ffurfio sefydliadau mwy, ond eu bod yn hytrach yn edrych i'r dyfodol ac yn ffocysu ar sut ddylai'r broses hon ddigwydd. Gwnaed awgrymiadau diddorol ynghylch pa adrannau ddylai fod yn ffurfioli'u dulliau gweithio ac edrychaf ymlaen at barhau â'r trafodaethau hyn dros yr haf.

Cawsom benwythnos gwych o ddigwyddiadau chwaraeon ar ddiwedd mis Mai - dathlwyd 10 mlwyddiant yr Adran Chwaraeon a Gwyddorau Ymarfer Corff, cynhaliwyd ras y Gyfres Daith Feicio Halfords yn y dref, a chroesawyd y Ffagl Olympaidd i Aberystwyth. Yr oedd hi'n hyfryd cael ymuno â myfyrwyr, aelodau o staff a'r gymuned leol, mewn tywydd godidog, i gael dathlu Aber ar ei orau. Pwy fyddai wedi rhagweld beth ddigwyddodd bythefnos yn ddiweddarach, wrth iddi lawio'n sobor iawn ac wrth i ardaloedd o Aberystwyth gael eu torri i ffwrdd gan lifogydd? Yr oedd hi'n galondid i ddysgu fod myfyrwyr a staff mor barod ag erioed i gefnogi ei gilydd yn ystod y cyfnod brawychus hwn. Carwn ganmol gweithgaredd ein staff, gan iddynt gamu i'r adwy i gynorthwyo eraill mewn modd mor sydyn ac effeithiol. Y mae wedi bod yn bleser derbyn canmoliaeth oddi wrth fusnesau ac aelodau o'r gymuned leol ynghylch gweithredoedd, meddylgarwch, ystyriaeth a dyfeisgarwch syniadau ein cydweithwyr.

Ymlaen a ni felly at y seremonïau graddio. Mewn sawl ffordd, dyma uchafbwynt y flwyddyn brifysgol, wrth inni longyfarch ein darpar-raddedigion; gwrdd â'u teuluoedd, ffrindiau a'u cefnogwyr; ac anrhydeddu Cymrodyr newydd. Eleni yr ydym wedi gwneud ychydig o newidiadau i'r seremonïau, gyda'r bwriad o gynnal traddodiad a chymeriad y digwyddiad, wrth gydnabod fod myfyrwyr wedi gofyn am i rai agweddau o'r seremoni fod yn fwy personol. Gobeithiaf weld llawer ohonoch yn ystod yr wythnos bwysig hon, ac i glywed eich barn am y newidiadau.



**Yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor**

## Llywydd yn annog adolygiad fisa



Mae Llywydd y Brifysgol, Syr Emyr Jones Parry, wedi arwyddo llythyr at y Prif Weinidog David Cameron sydd wedi'i arwyddo gan bron i 70 canghellor a chadeiryddion cynghorau prifysgolion yn y Deyrnas Gyfunol, ac sy'n annog y llywodraeth i gefnogi prifysgolion Prydeinig yn eu hymdrechion i ddarganfod gwir fyfyrwyr rhyngwladol.

Cefnogant alwadau ar i fyfyrwyr rhyngwladol i gael eu heithrio o'r ystadegau mewnfudo ar gyfer amcanion polisi, gan osod y DG yn hafal â pholisi ein prif gystadleuwyr, a chan annog y llywodraeth i wneud diffiniad eglur rhwng mudo dros dro a mudo parhaol.

"Mae gan Brifysgol Aberystwyth gymuned fywiog o fyfyrwyr rhyngwladol a gwerthfawrogir eu cyfraniad diwylliannol ac economaidd yn fawr iawn," dywedodd Syr Emyr.

"Fel y bu am genedlaethau, mae llawer wedi mynd yn eu blaenau i fod yn genhadon brwdfrydig dros y Brifysgol, dros Gymru, a thros y DG. Wrth gwrs dylai'r Llywodraeth weithredu i atal y llwgr-fasnachu gyda cholegau ffug. Ond am y rhesymau hyn dylai Llywodraeth y DG wneud pob ymgais posibl i sicrhau na fydd gwir fyfyrwyr rhyngwladol, sydd am astudio mewn prifysgolion cydnabyddedig yn y DG, yn cael eu darbwyllo rhag dod yma," ychwanegodd.

GWYDDORAU BIOLEGOL, AMGYLCHEDDOL a GWLEDIG

# Buddsoddiad o bwys i IBERS

Ynghyd â buddsoddiad sylweddol o £13m ar gyfer ymchwil biowyddoniaeth, mae IBERS hefyd wedi agor y Ganolfan Ffenomeg Planhigion Genedlaethol newydd yng Ngogerddan a chyfleusterau ymchwil yn ddiweddar ar gampws Penglais.

Bydd y buddsoddiad o £13m gan y Cyngor Ymchwil Biodechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC), yn gymorth i'r Deyrnas Gyfunol wrth iddi ymateb i sialensiau megis cynaladwyedd bwydo poblogaeth byd sy'n tyfu o hyd, canfod ffynonellau tanwydd amgen i gymryd lle tanwydd ffosil, a chefnogi cymdeithas sy'n heneiddio i aros yn iach am hirach.

Wedi'i leoli yng Ngogerddan, bydd y Ganolfan Ffenomeg newydd gwerth £6.8m yn helpu i ddatblygu amrywiadau newydd ar blanhigion a chnydau er mwyn dygymod â sialensiau newid hinsawdd byd eang, diogelwch bwyd, a chanfod deunyddiau amgen i gymryd lle cynhyrchion wedi'u gwneud o olew.



Dde i'r Chwith. Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews AC yn agor yr adeilad IBERS newydd ar Benglais yng nghwmni'r Athro April McMahon a'r Athro Wayne Powell.

Mae'r buddsoddiad o £5.6m, mewn cyfleusterau ar Benglais yn cynnwys labordai Biowybodeg a Modeli Gofodol yn ogystal â chanolfan ar gyfer addysgu israddedig ac uwchraddedig.



Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd y tŷ gwydr ffenomeg yn medru dal hyd at 850 o blanhigion mewn potiau unigol ar dros 300 metr o feltiau cludo.

Dywedodd yr Athro Wayne Powell, Cyfarwyddwr IBERS: "Mae'n gydnabyddiaeth o'r ymchwil gwych sy'n cael ei gyflawni yma yn IBERS wrth ymrafael â rhai o'r problemau sy'n wynebu'r byd heddiw, newid hinsawdd, diogelwch bwyd a dŵr, a'r angen i ganfod tanwyddau i gymryd lle tanwyddau ffosil.

"Mae gan ymchwilwyr yn y DG ac yn rhyngwladol y dechnoleg ddiweddaraf er mwyn datblygu amrywiaethau cnwd newydd gall ffynnu mewn amodau anodd a chyfrannu'n helaeth tuag at gynnyrch bwyd y dyfodol."

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.aber.ac.uk/cy/ibers neu www.phenomics.org.uk

NEWYDDION PRIFYSGOL

# Cymrodyr i'w hanrhydeddu

Anrhydeddir wyth Cymrawd, gan gynnwys yr actor Michael Sheen a chyflwynwraig *The One Show* Alex Jones, gan y Brifysgol eleni.



Michael Sheen yng nghynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru, 'The Passion in Port Talbot' Delwedd: Geraint Lewis / Theatr Genedlaethol Cymru

Urddir y teitl i'r rhai hynny sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i fywyd proffesiynol neu gyhoeddus yng Nghymru neu sydd â chysylltiad agos â'r Brifysgol.

Y rhai sydd yn cael eu hurddo yn ystod y seremoniau graddio eleni, sy'n cael eu cynnal rhwng dydd Mawrth 10 a dydd Gwener 13eg Gorffennaf, fydd Yr Athro Michael Clarke, Syr David Lloyd Jones, Y Parch John Gwilym Jones, Caitlin Moran a Dr Jan Jaroslav Pinkava. Ni fydd Michael Sheen, Alex Jones na Mark Price ar gael i fynychu'r seremoniau. Trefnir dyddiadau eraill ar gyfer cyflwyno'r Cymrodoriaethau iddynt.

Am fwy o wybodaeth, ewch i:
www.aber.ac.uk/cy/graduation/order-ceremonies

GWASANAETHAU MASNACHEIDDIO ac YMGYNGHORI

# Gwyddoniaeth app-elgar

mobileFARM

Yn dilyn yr 'Her Appiau Symudol' llwyddiannus y llynedd, bydd y Brifysgol yn lansio ei app masnachol cyntaf yn Sioe Frenhinol Cymru eleni.

Bydd y brand mobileFARM yn y pen draw yn cynnwys llawer o appiau, oll gyda'r bwriad o gefnogi ffermwyr a pherchnogion anifeiliaid i weithio'n effeithlon ac arbed arian.

Un o'r appiau a ddatgelir yn y Sioe fydd farmGRAZE, a fydd yn helpu ffermwyr i reoli pori da byw yn effeithlon ac arbed arian ar fwyd anifeiliaid a gwrtaith.

App arall a fydd yn ymddangos yn fuan o dan yr ymbarél mobileFARM, yw horseRATION, a fydd yn cynnig cyngor cyflym, annibynnol a chywir ar gyfer diet ceffyl.

Eglurodd Dr Rhian Hayward o'r Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori, "Dyma ddechrau ar fenter newydd i Brifysgol Aberystwyth yn y farchnad appiau fasnachol ar gyfer android ac iPhones.

"Mae'r fenter hon wedi ei hanelu yn benodol er mwyn hyrwyddo'r appiau sy'n cael eu datblygu ym maes amaethyddiaeth ac iechyd anifeiliaid.

"Mae prifysgolion mewn sefyllfa gref i wireddi gwerth masnachol yn eu technoleg ac arbenigedd drwy gyfrwng y farchnad appiau."

Am fwy o wybodaeth am mobileFARM, cliciwch ar:
www.mobilefarmapps.com

CYFRAITH a THROSEDDEG

# Dyfarniad achos ffug - Euog!

Mae Adran y Gyfraith a Throseddeg wedi bod yn gweithio gyda disgyblion ysgol lleol i baratoi ac i gynnal achos llys ffug.

Gan weithio gyda'r darlithydd yn y gyfraith, Mick John-Hopkins, mynychodd disgyblion ysgol Penglais gyfres o weithdai dydd Sadwrn er mwyn paratoi ar gyfer yr achos, a darparodd Siambr y Cyngor yn yr Hen Goleg, leoliad addas ar gyfer y digwyddiad.

Disgyblion Penglais oedd y timau cyfreithiol, tra chwaraeodd myfyrwyr israddedig y Gyfraith, Robert Donaldson, Charlotte Garbett, Liam Hunter, a Sofiya Kartalova rannau'r tystion, y cyhuddedig, a'r diffynnydd. Carol Dieb oedd y myfyriwr oedd yn chwarae rhan y troseddwr, sef y lleidr.



*Disgyblion a staff Penglais yn ymuno â staff a myfyrwyr yn y paratoadau.*

Roedd gan athrawon Penglais swyddogaethau amlwg hefyd, wrth i'r Pennaeth, Mr Haydn Davey YH a'r Dirprwy Bennaeth, Mr Matthew Brown, ymuno â Phennaeth adran y Gyfraith a Throseddeg, yr Athro Noel Cox, ar fainc y rheithgor.

YN GRYNO

## Dathlu gwaith cyhoeddwyr Cymru - gwobr i CAA

Mae'r Ganolfan Astudiaethau Addysg (CAA), sy'n rhan o'r Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn nodi 30 mlynedd o gyhoeddi eleni. Arbeniga'r Ganolfan mewn cynhyrchu adnoddau i wella datblygiad y Gymraeg fel ail iaith ac i annog 'darllenwyr cyndyn'. Cyflwynwyd gwobr y gwerthwr gorau yn yr adran llyfrau Cymraeg i blant i CAA yn ddiweddar yng Ngwobrau'r Diwydiant Cyhoeddi am y gyfrol Patagonia, gan Sioned V. Hughes. Roedd y Gwobrau hefyd yn nodi 50 mlwyddiant Cyngor Llyfrau Cymru.



*Yr Athro M. Wynn Thomas, cadeirydd Cyngor Llyfrau Cymru, yn cyflwyno'r wobr i Lynwen Rees Jones, cyfarwyddwr CAA*

## Dringo Kilimanjaro

Bydd grŵp o 18 o fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn cyfnewid arfordir Ceredigion am Fynydd Kilimanjaro yn ystod mis Awst. Gobeithia'r grŵp gyrraedd copa'r mynydd mewn chwe diwrnod, gan godi dros £44,000 i'r elusen Childreach sy'n helpu plant yn rhai o ardaloedd tlotaf y byd.

Dywedodd y dringwr a'r myfyriwr ffiseg Stephen Browett "Dwi erioed wedi gwneud unrhyw beth fel hyn o'r blaen, ond rwy'n edrych ymlaen yn fawr at yr her a'r profiad. Cyn i ni ddechrau dringo, byddwn yn ymweld ag ysgol yn Nhanzania a gweld drosom ein hunain beth ellir ei wneud gydag arian yr elusen. Ar ôl y daith, bydd rhai ohonom yn aros yno am wythnos neu ddwy i archwilio'r ardal."

I ddilyn y grŵp, ewch i'w tudalen Facebook ar: www.facebook.com/#!/groups/112249342175800

## Cyswllt Celtaidd

Myfyrwyr a darlithwyr Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu fydd y cyntaf i elwa o Femorandwm o Ddealltwriaeth a arwyddwyd gan Brifysgol Aberystwyth a Choleg Galwedigaethol Enniscorthy (EVC), Swydd Wexford, Iwerddon. Bydd y cytundeb tair blynedd yn gyfrwng i staff yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu gydweithio gyda chydweithwyr yn Enniscorthy ar ddatblygiad cwricwlwm a chyfleoedd hyfforddiant uwchraddedig.

## Marciau llawn oddi wrth YouthSight

Aberystwyth yw prifysgol orau'r DG am ofalu am hynt myfyrwyr yn ystod y broses ymgeisio, yn ôl Adroddiad Disgwyliadau Uwch YouthSight 2012. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar y fersiwn diweddaraf o'r Higher Expectations, astudiaeth i mewn i'r broses o wneud penderfyniadau gan israddedigion a gyhoeddir gan YouthSight (OpinionPanel Research gynt).

## Cerdded y Byd

Cape Verde, ger arfordir gorllewinol yr Affrig, oedd cyrchfan olaf Cerdded y Byd am eleni. Yr her oedd cerdded mor bell â phosibl mewn 60 diwrnod, ac ymwrolodd 322 aelod o staff i gofnodi nifer eu camau dyddiol i gyrraedd cyfanswm o 36,098 milltir. Hysbyswyd y sawl oedd yn cymryd rhan yn gyson o hynt y daith gydag e-byst yn traddodi hanes eu hymweliadau rhithiol â Sweden, Rwsia, Tsieina, Singapore, Hawaii, America, Antarctica a'r Ariannin. Pe carech barhau i gerdded, medrwch gofnodi eich camau o hyd trwy fynd at walk.aber.ac.uk/walk/login.jsp

# Ymchwil Aber

Gyda dyfodiad gwyliau'r haf, mi fyddwch, mae'n siŵr yn edrych ymlaen at gael amser ar gyfer eich gwaith ymchwil, felly dyma gyfle da i'ch atgoffa o'r gefnogaeth a ddarperir ar eich cyfer gan y Swyddfa Ymchwil.

## 'Toolkit' ceisiadau am grantiau

Yn ogystal a thri Swyddog Datblygu Ymchwil a'r Swyddogion Datblygiad Ewropeaidd (manylion ar dudalen 7), eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyllid ymchwil a chostio mae cyfoeth o adnoddau ar-lein o dan y linc Ymchwil ar flaenddalen gwefan y Brifysgol. Mae'r rhain yn cynnwys y 'Toolkit' Ymchwil sy'n darparu cymorth cyn-gwobrwyo:

- Cyflwyniad i brosesau a chysylltiadau Ymgeisio am Grantiau yn PA
- Ffynonellau cyllid (mewnol ac allanol), gan gynnwys y bas data cyllid defnyddiol, PIVOT, lle ceir ystod o gyfleoedd - sy'n hynod o bwysig yn y byd o gyllid cyfyngedig sydd ohoni - sesiynau hyfforddi sydyn amser cinio ar y ffordd!
- Copïau o geisiadau grant llwyddiannus blaenorol a ddanfonwyd at amrywiaeth o gyllidwyr, gan gynnwys RCUK, Leverhulme, a rhai Ewropeaidd.
- Cyfraddau llwyddiant gan y cyllidwr.
- Gwybodaeth am foeseg ymchwil.
- Arweiniad i Gostio Prosiect.
- Cyngor ar impact a gwybodaeth am Reoli Prosiect gan gynnwys datganiadau enghreifftiol ar gyfer ceisiadau grant.

Ceir hefyd wybodaeth am y REF, linc gwe at y Bas Data Gweithgaredd Ymchwil a rhestr o'r Digwyddiadau Ymchwil diweddaraf.

## Gwella cefnogaeth wedi'r gwobrwyo

Mae rhai datblygiadau newydd i'w gweld yn y Swyddfa Ymchwil. I gefnogi wedi'r gwobrwyo:

- Datganiadau cyllid a gwariant misol newydd ar gyfer PIs o fis Mehefin.
- Cyfarfod "cam cyntaf" gyda Chyllid Ymchwil a ffeil cychwyn prosiectau sy'n cyd fynd â'r cyfarfod, ar gyfer prosiectau newydd
- Hyfforddiant ar gyfer PIs ar broses y Brifysgol o drefnu cefnogaeth wedi'r gwobrwyo o fis Medi
- "Toolkit" arlein ar gyfer cefnogaeth wedi'r gwobrwyo yn cael ei gynllunio
- Mae myfyriwr graddedig dan hyfforddiant, Peter Botwood, wedi dechrau yn y Swyddfa Grantiau Ymchwil i gefnogi'r mentrau wedi'r gwobrwyo hyn, a gellir gwneud pob ymholiad ynghylch y gwasanaeth hwn trwy gysylltu â rfostaff@aber.ac.uk neu x8485

## Caffi Ymchwil - bwydlen newydd!

Bydd y Caffi Ymchwil yn ail ddechrau ym mis Medi gyda 'bwydlen newydd'. Perthyn i'r Caffis Ymchwil hyn ffocws mwy penodol a fydd yn darparu cyfle i academyddion ac ymchwilwyr i greu cysylltiadau ar draws disgyblaethau a'r Brifysgol. Yr amcan yw darganfod synergedd rhwng themâu ymchwil ac i greu cyfleoedd i ddatblygu ceisiadau ymchwil rhyngddisgyblaethol gyda chefnogaeth y Swyddogion Datblygiad Ymchwil.

Bydd ffocws y Caffis Ymchwil "newydd" yn canolbwyntio ar Grwpiau Ymchwil gwahanol bob mis, lle byddant yn darparu cyflwyniad 20 munud ar themâu a syniadau eu hymchwil presennol, ac yn nodi meysydd addas ar gyfer cydweithio rhyngddisgyblaethol. Felly os carech wybod pa ymchwil sy'n digwydd ar draws y Brifysgol, a charech gyfarfod â chydweithwyr posibl, dewch i'r Caffis. Hysbysebir y Caffis ar y tudalennau gwe sy'n ymwneud ag ymchwil ac yn yr e-bost wythnosol.

Pe carech i'ch Grŵp Ymchwil / Canolfan Ymchwil chi fod yn ffocws i Gaffi Ymchwil yna cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Ymchwil.



**Gary Reed**
**Pennaeth y Swyddfa Ymchwil**

## Rhyngddisgyblaethol a thraws-ddisgyblaethol

Yn gysylltiedig â'r Caffi Ymchwil, yr ydym hefyd yn gobeithio rhedeg nifer o ddigwyddiadau, er enghraifft gweithdai thematig, pyllau tywod bychain, o gwmpas themâu croesdoriadol oddi wrth y Strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru, blaenoriaethau ymchwil y RCUK a'r Cyllid Ymchwil Ewropeaidd Horizon 2020. Os oes gennych ddiddordeb yn un o'r meysydd hyn byddem yn llawen o gael clywed oddi wrthych ac i ddarparu cefnogaeth ichi redeg digwyddiad i ddod ag ymchwilwyr ynghyd yn Aberystwyth a Phrifysgolion eraill.

Mae angen llongyfarch IBERS, sydd wedi cynnal nifer o nosweithiau rhannu ymchwil gydag IMAPS, Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff a Chyfrifiadureg. Eisoes, mae cysylltiadau ymchwil wedi'i gwneud ar sail y nosweithiau hynny.

Bydd 2012-13 yn flwyddyn draws-ddisgyblaethol - edrychaf ymlaen at eich gweld chi yno!

## Galwad am gyllid mawr

Rydym yn darogan y bydd yr ESRC yn fuan yn lansio galwad am geisiadau amlinellol ar gyfer canolfannau a rhaglenni grantiau mawrion gyda dyddiad terfyn ym mis Hydref. Llynedd bu galwadau am rhwng £2 a £5 miliwn (100% FEC) dros gyfnod o 5 mlynedd. Yr ydym yn anelu at o leiaf un cais oddi wrth Brifysgol Aber ar gyfer yr ymgyrch hon. Pe carech wybod mwy cysylltwch â ni, ac felly hefyd am unrhyw alwadau eraill am gyllid oddi wrth gyrff cyllid eraill, megis y rhaglen Ymchwil Leverhulme.

## Blodeuo neu beidio

Mae math anarferol ar blanhigyn sydd byth yn blodeuo wedi galluogi gwyddonwyr i adnabod genyn sydd yn angenrheidiol er mwyn ffurfio canghennau sydd yn eu tro yn cynnal blodau.

Mewn papur yn y cyfnodolyn *Nature Communications*, amlinella tîm rhyngwladol o wyddonwyr, sydd yn cynnwys yr Athro Noel Ellis o IBERS, sut y bu iddynt astudio planhigyn pys cellwyriadol, *Pisum sativum*, er mwyn adnabod y genyn sydd yn arwain at ffurfio canghennau sydd yn blodeuo mewn planhigion.

Trwy gymharu'r planhigyn hwn â rhai sy'n blodeuo, llwyddodd yr ymchwilwyr, wedi blynyddoedd o ymchwil manwl, i adnabod y genyn sydd yn rheoli datblygiad y canghennau yma ar blanhigion.

Mae'r Athro Ellis, sy'n arbenigwr ar godlysiau - planhigion fel pys a meillion - yn credu fod y gwaith hwn wedi sefydlu'r dulliau, yr egwyddorion a'r arbenigedd sydd eu hangen er mwyn defnyddio geneteg ar gyfer datblygu codlysiau sydd yn fwy cynhyrchiol a llesol i'r amgylchedd.

### Ymweliad yr Adran Amddiffyn

Ym mis Ebrill daeth grŵp o ymchwilwyr o'r Adran Amddiffyn Americanaidd (American Department of Defense [DoD]) i ymweld ag IMAPS, Cyfrifiadureg a Chwaraeon a Gwyddior Chwaraeon fel rhan o daith o gwmpas prifysgolion Lloegr a Chymru.

Roedd gan yr ymwelwyr ddiddordeb mawr yn yr ymchwil i ddeunyddiau sy'n digwydd yn IMAPS a'r gwaith a wneir ar berfformiad dynol yn yr adran Chwaraeon ac Astudiaethau Ymarfer Corff, ac mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ddatblygu'r berthynas gyda'r bwriad o sicrhau cyllid er mwyn cynorthwyo cydweithrediad rhwng PA â'r DOD.

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn cydweithio gyda'r DoD cysylltwch â'r Swyddfa Ymchwil ar research@aber.ac.uk


### Dros €5biliwn o gyllid ymchwil Ewropeaidd ar gael

Disgwylir i'r UE gyhoeddi gwerth €5biliwn o grantiau ar gyfer ymchwil ar y cyd ar 10fed o Orffennaf. Ceir manylion am gyfres o gyflwyniadau i helpu ymchwilwyr sydd â diddordeb mewn ymgeisio ar www.aber.ac.uk/cy/research/support/events/fp7-summer-programme/

# Gwobrwyo prosiect Leverhulme

Mae'r Athro Peter Barry o Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol Prifysgol Aberystwyth wedi derbyn Grant Prosiect Ymchwil Leverhulme o £232,042 i arwain y prosiect 'Devolved Voices' sydd yn dechrau ym mis Medi a bydd yn rhedeg am dair blynedd.

Canolbwyntia'r prosiect ar ddatblygiad barddoniaeth Gymreig yn y Saesneg ers 1997, gan dalu sylw penodol i waith beirdd sydd wedi cyrraedd safle flaengar ac wedi derbyn cydnabyddiaeth ers refferendwm Cymru ar ddatganoli.



Yr Athro Peter Barry

Dywedodd yr Athro Barry, sydd yn arbenigwr ar farddoniaeth modern a chyfoes ac ar theori lenyddol, "Yr ydym yn llawen dros ben ein bod wedi cael y cyfle hwn i ystyried egni, cyraeddiadau, a sialensiau barddoniaeth Gymreig gyfoes yn y Saesneg. Yr ydym yn hynod o ddiolchgar i Ymddiriedolaeth Leverhulme am eu cefnogaeth hael."

Bwriedir i'r prosiect gynhyrchu ystod eang o gyhoeddiadau, gan osod barddoniaeth gyfoes Gymreig Saesneg yn ei gyd-destun barddonol Prydeinig, ystyried y cwestiwn penodol o gynhyrchu barddoniaeth yng nghyd-destun taith ddatganoli Cymru, a darparu astudiaethau manwl o'r prif ffigyrau yn y maes. Bydd y prosiect hefyd yn lansio gwefan fideo-gyfoethog a fydd yn darparu cofnod pwysig o drafodaethau gyda'r beirdd eu hunain, beirdd yn darllen eu gwaith eu hunain, a chyfweliadau gydag aelodau blaenllaw eraill o'r byd barddoniaeth Saesneg yng Nghymru.

## Cynhadledd Economeg Cymru wedi'i gynnal gan SMB

Cynhaliodd yr Ysgol Fusnes a Rheolaeth Gynhadledd Economeg Cymru ym Mhlas Gregynog, ger y Drenewydd, Powys, ar Fai 8fed i'r 10fed. Dyma'r diweddaraf mewn cyfres hir o gynadleddau a gynhaliwyd yn draddodiadol yng Ngregynog ers canol yr 1960au ac mae'r ffaith fod yr Ysgol Fusnes a Rheolaeth yn cynnal y digwyddiad eleni'n gymwys iawn, gan eu bod hwythau'n dathlu can mlwyddiant dysgu Economeg yn Aberystwyth.

Yn ogystal â mynychwyr o brif sefydliadau Addysg Uwch Cymru, roedd rhestr y cynadleddwyr hefyd yn cynnwys academyddion o brifysgolion eraill o'r DU yn ogystal â Gogledd America ynghyd â chynrychiolwyr o'r sectorau llunio polisi ac ymarfer.

Roedd y rhaglen weithgareddau'n cynnwys 20 cyflwyniad oedd yn trafod ystod eang o bynciau o fewn maes economeg, a darparodd y gynhadledd gyfle pwysig i ymchwilwyr ifainc i gyflwyno a thrafod eu hymchwil gydag economegwyr hŷn.

## Cysylltiadau Cymorth Ymchwil

| Enw | Swydd | Ebost | Estyniad |
|---|---|---|---|
| **Swyddfa Ymchwil** | | | |
| Gary Reed | Pennaeth y Swyddfa Ymchwil | gar | 1789 |
| Hannah Payne | Swyddog FfRhY Monitro Ymchwil | hep | 8490 |
| Dafydd Roberts | **Swyddog Datblygu Ymchwil** - Cyfadran y Celfyddydau a'r Dyniaethau | dir | 8787 |
| Jenny Deaville | **Swyddog Datblygu Ymchwil** - Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol | jfj | 1616 |
| Joanne Walker | **Swyddog Datblygu Ymchwil** - Cyfadran y Gwyddorau | jnw | 2947 |
| Huw Merfyn Hughes | Rheolwr Datblygu Ewropeaidd | hmh | 8742 |
| Anne Howells | Swyddog Datblygu Ewropeaidd | nsh | 4127 |
| **IBERS** | | | |
| Tim Williams | Rheolwr Datblygu Cronfa Ymchwil IBERS | tdw | 8754 |
| Vacant | Rheolwr Datblygu Cronfa Ymchwil IBERS | | |
| **Ymchwil Cyllid** | | | |
| Peter Botwood | Pwynt Cyswllt Canolog | peb16 | 8485 |

Ceir Cymorth Ymchwil pellach drwy'r Pecyn Cymorth Ymchwil a'r Bas-data Cyfleoedd Cyllido Ymchwil (PIVOT) yn www.aber.ac.uk/cy/research/

# Cyfnewid



Yn yr atodiad hwn o 'Cyfnewid' yr ydym yn falch o gyhoeddi newyddion am y gystadleuaeth gyffrous newydd, Gwobr CaisDdyfeisio. Yn agored i fyfyrwyr ar draws y Brifysgol, mae'r gystadleuaeth hon yn addo bod yn gystadleuaeth fusnes tra gwahanol i'r arfer gan gynnig gwobr fawreddog. Edrychwn ymlaen at weld unigolion a grwpiau ar draws y Brifysgol yn ymgymryd â'r sialens hon yn y flwyddyn academaidd newydd. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am gyfleoedd i ddenu myfyrwyr i gymryd rhan yn y gweithgaredd cysylltwch â ni'n syth.

**Liz Flint,** Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori

## Cyllid i hwyluso lleoliadau staff mewn sefydliadau allanol

Mae menter £12m i helpu busnesau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i weithio mewn ffordd mwy cynaliadwy wedi cael hwb gan yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Bydd prosiect Rhwydwaith WISE (Sefydliad Amgylcheddau Cynaliadwy Cymru), dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth mewn partneriaeth â Phrifysgolion Bangor ac Abertawe, yn cefnogi cwmnïau i wneud gwaith ymchwil a datblygu er mwyn datblygu cynhyrchion 'gwyrddach' a hybu twf busnesau.

Bydd y cynllun yn cefnogi ystod o fusnesau sy'n cynnig arbenigedd mewn meysydd fel datblygu deunyddiau adnewyddadwy i'w defnyddio mewn cynhyrchion a gwella effeithlonrwydd gwasanaethau o ran adnoddau, gan helpu i leihau'u hôl-troed ecolegol.

Mae'r prosiect yn cael ei gefnogi â £6.6m gan Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, gyda gweddill yr arian gan y prifysgolion dan sylw.

Mae ystod o weithgareddau'n debygol o ddechrau drwy'r prosiect fel helpu cwmnïau i wneud eu prosesau gweithgynhyrchu, cynhyrchion a phecynnau yn fwy effeithlon ac effeithiol o ran cost, a defnyddio mwy o ddeunyddiau adnewyddadwy mewn nwyddau a gwasanaethau masnachol.

Wrth groesawu'r cyhoeddiad, dywedodd yr Athro Jamie Newbold, Cyfarwyddwr Rhwydwaith WISE:

"Rydyn ni'n falch iawn bod cyllid yr UE ar gael i gefnogi'r gwaith hwn, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at ddatblygu a gwella'r berthynas gyda busnesau yn yr ardal Gydgyfeirio. Mae'r prifysgolion yn y bartneriaeth yn frwdfrydig dros ben am gydweithio gyda chwmnïau lleol. Bydd y cwmnïau'n gallu cael arbenigedd gorau'r prifysgolion i ddatblygu'n gynaliadwy, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at gyfnewid gwybodaeth gyda nhw."

Am fwy o wybodaeth am y Rhwydwaith WISE cysylltwch â Liz Flint - ejf@aber.ac.uk

WISE NETWORK
Sefydliad Amgylcheddau Cynaliadwy Cymru
Welsh Institute for Sustainable Environments

## Gwobr CaisDdyfeisio

Mae Gwobr CaisDdyfeisio yn gystadleuaeth fusnes newydd a chyffrous i fyfyrwyr, ac mae'n dod i Brifysgol Aberystwyth cyn hir.

Os oes gennych syniad am gynnyrch neu wasanaeth newydd y gallwch ei droi yn fenter lwyddiannus, peidiwch â cholli'r cyfle hwn!

"Mae Gwobr CaisDyfeisio yn gyfle gwirioneddol ac ymarferol i fyfyrwyr weithio ar syniadau gwirioneddol fentergar a'u gweld yn dwyn ffrwyth" esboniodd y Dr James Hudson, y Rheolwr Trosglwyddo Technoleg.

Anogir ceisiadau gan unigolion neu dimoedd a chanddynt syniadau am ddyfeisiau, busnesau newydd neu gynlluniau uchelgeisiol eraill. Bydd y gystadleuaeth ar agor i fyfyrwyr sy'n astudio yn Aberystwyth yn ystod 2012/13 a bydd yn cael ei lansio'n swyddogol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

Bydd yr enillydd yn cael pecyn gwobr a fydd yn cynnwys cymorth a buddsoddiad gwerth hyd at £20,000 i gychwyn y busnes. Ar ben hynny, bydd yr holl gystadleuwyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael cyngor gan banel o gyn-fyfyrwyr sydd wedi mentro'n llwyddiannus i fyd busnes.

Fel rhan o gystadleuaeth Gwobr CaisDyfeisio, bydd Rhwydwaith Menter Aberystwyth yn cynnal amrywiaeth o weithdai a chyflwyniadau ysbrydoli ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb mewn datblygu eu sgiliau mentro ac sy'n paratoi eu ceisiadau.

Am y wybodaeth ddiweddaraf am y gystadleuaeth, cofrestrwch i gael diweddariadau ar: www.aber.ac.uk/cy/inventerprize

*Gan weithio mewn partneriaeth â Datblygu a Chysylltiadau Alumni, trefnir Gwobr CaisDyfeisio gan y Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori (GMY) gyda chefnogaeth y Gronfa Flynyddol.*

*Bydd telerau ac amodau'r gystadleuaeth yn gymwys; bydd y manylion llawn ar gael yn ystod y lansiad ym mis Hydref 2012.*

**GWASANAETHAU MASNACHEIDDIO ac YMGYNGHORI**

**Cyswllt Golygyddol:** Delyth Whitelaw, dte@aber.ac.uk Est: 8753

# Mewn ysbryd cydweithredol

Mae pedwar aelod ar ddeg o staff o bum adran ar draws y Brifysgol wedi sicrhau cyllid er mwyn sefydlu cysylltiadau cyfnewid gwybodaeth gyda sefydliadau allanol. Wedi'u cefnogi gan y Rhaglen Cyd-ddealltwriaeth Strategol (SIP) ymgymerir â'r lleoliadau gwaith byr dymor hyn, sydd wedi'u cyllido'n llawn, gan gydweithwyr dros fisoedd yr haf. Mae'r lleoliadau, sydd wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â chymdeithasau partner, yn darparu cyfle gwych i dreulio amser yn y busnes, datblygu sgiliau a gwybodaeth, ac annog cysylltiadau cyfnewid gwybodaeth newydd ar sail sy'n fuddiol i bob carfan.

Gan ddatblygu ar lwyddiant yr alwad gyntaf, mae GMY wedi agor ail rownd o leoliadau SIP - ceir gwybodaeth bellach ar - www.aber.ac.uk/cy/ccs/staff-students

*Mae'r Rhaglen* Cyd-ddealltwriaeth Strategol (SIP) yn fenter dros Gymru gyfan sy'n derbyn cefnogaeth oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru CCAUC / HEFCW.

## Blwyddyn mewn Uned Greadigol

Wedi'i lansio ar y 9fed o Fai, mae'r bedwaredd gystadleuaeth 'Blwyddyn mewn Uned Greadigol' yn cynnig lle stiwdio'n rhad ac am ddim am ddeuddeg mis yn un o Unedau Creadigol arobryn Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Yn agored i fusnesau newydd neu rai sydd o hyd yn eu cyfnod o ddatblygiad cynnar, bydd y busnesau ar y rhestr fer yn wynebu panel tebyg i'r un ar 'Dragons Den' ym mis Gorffennaf, a bydd y buddugwr yn ymuno â'r gymuned greadigol ar y campws ym mis Medi.

www.aber.ac.uk/year-in-a-creative-unit



*O'r chwith i'r dde: Alan Hewson, Cyfarwyddwr, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth; Ruth Emily Davey, Buddugwr y Gystadleuaeth yn 2011; Tony Orme, Rheolwr Menter, Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori (CCS)*

# Adnabod cyfleoedd yn y Rhwydwaith Busnes

Adnabod cyfleoedd a datblygu diwylliant menter o fewn sefydliad oedd thema'r digwyddiad Rhwydwaith Busnes Prifysgol Aberystwyth a gynhaliwyd ar ddydd Llun y 26ain o Fawrth.



*O'r chwith i'r dde: Yr Athro Noel Cox, Mr Christopher Nott, Yr Athro April McMahon a Tony Orme.*

Traddodwyd y ddarlith gyweirnod gan yr alumnus o Aberystwyth Mr Christopher Nott (Parter Hŷn, Capital Law LLP) ger bron cynulleidfa gymysg o dros bumdeg cynrychiolwr busnes a staff y Brifysgol.

Fel rhan o'i ymweliad â'r Brifysgol, cyfarfu Christopher ag aelodau o Adran y Gyfraith a Throseddeg a thraddododd ddarlith i'r myfyrwyr ar y pwnc, 'What it takes to be a Commercial Solicitor'.

www.aber.ac.uk/network

## Wythnos Dechrau Busnes

Darparodd Wythnos Dechrau Busnes Aberystwyth gyfle gwych unwaith eto i entrepreneuriaid i archwilio agweddau ymarferol o ddechrau menter newydd. Cynhaliwyd y gweithgaredd ar y campws rhwng yr 28ain o Fai - 1af o Fehefin, ac roedd y gweithdai'n cynnwys marchnata digidol, rheolaeth a rhwydweithio ariannol, a darparwyd cyfleoedd i glywed yn uniongyrchol oddi wrth fusnesau lleol a fu'n rhannu eu profiadau cychwynnol hwynt.

www.aber.ac.uk/crisalis



## Cyllid Prosiect Ymchwil Diwydiannol Cydweithredol (CIRP)

Os oes gennych syniad ymchwil sy'n seiliedig ar dechnoleg, ac sydd wedi'i ffocysu ar ddiwydiant, carai tîm GMY glywed oddi wrthych! Mae cyllid ar gael, trwy Raglen Arbenigedd Busnes Llywodraeth Cymru (A4B), ar sail gystadleuol i gefnogi consortia sy'n cynnwys partneriaid diwydiannol ym maes cyfluniad Cymru. Croesawir partneriaid o gwmnïau mawrion a rheiny o'r tu allan i Gymru ynghyd a chwmnïau o fewn y maes cyfluniad. Anogir academyddion sydd â diddordeb mewn trafod syniadau prosiect i gysylltu â CCS ar y cyfle cynharaf posibl am fwy o fanylion am yr alwad am gyllid agored.

Trefnir Rhaglen Arbenigedd Busnes Llywodraeth Cymru (A4B) gan Lywodraeth Cymru a chefnogir hi gan gyllid cyfluniad y DU.

**CADWCH MEWN CYSYLLTIAD**

Am wybodaeth neu gefnogaeth yn ymwneud â chyfleoedd cyfnewid gwybodaeth cysylltwch â ni, neu dewch i'n swyddfeydd ar lawr cyntaf y Ganolfan Ddelweddu.

Gwasanaeth Ymholiadau Canolog GMY: ccservices@aber.ac.uk - ext 2385 - www.aber.ac.uk/ccs

GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL

# Putin 2.0

Dr Jennifer Mathers, Darlithydd Hŷn sy'n arbenigo mewn gwleidyddiaeth Rwsiaidd a diogelwch yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, yn ystyried dyfodol Rwsia yn dilyn ail-ethol Vladimir Putin i'r arlywyddiaeth.



*Dr Jennifer Mathers*

Medrwch ddilyn Dr Mathers ar Twitter ar @jgmaber

Ar y 7fed o Fai 2012, penodwyd Vladimir Putin yn arlywydd ar Rwsia, gan ddychwelyd am dymor o chwe blynedd yn y swydd. Gall Putin dreulio dau dymor yn olynol yn y swydd a pharhau yn y Kremlin tan 2024, ond camgymeriad fyddai ragdybied taw ail-rediad o'i arlywyddiaeth gyntaf fydd hwn, neu y bydd yn para yn y swydd am ddeuddeg mlynedd. Mae gan ei wrthwynebwyr rym a fu'n weladwy dros y misoedd diwethaf, a'r potensial i ddanfon gwleidyddiaeth Rwsia i gyfeiriadau newydd.

Hyd yma'r grym sydd wrth wraidd y protestiadau gwrth-Bwtinaidd yw'r dosbarth canol Rwsiaidd, sy'n tyfu'n gyflym, ac fe'i synnwyd gan gyhoeddiad yr Arlywydd Dmitri Medvedev y byddai ef a Putin yn cyfnewid llefydd, i bob pwrpas. Dadrithiwyd y camargraff o ddewis poblogaidd mewn etholiadau arlywyddol ac y mae wedi deffro diddordeb cenhedlaeth newydd mewn gwleidyddiaeth.

Tystiolaeth o dwyll etholiadol yn etholiadau'r Duma (seneddol) yn Rhagfyr 2011 oedd y catalydd ar gyfer troi gwarth yn weithred. Mae'r ffordd y rheolwyd yr etholiadau er mwyn sicrhau'r canlyniad dewisol wedi bod yn agwedd gydnabyddedig o fywyd Rwsia ers y cyfnod Sofietaidd, ond y tro hwn mae camerâu smartphone a gwefannau cymdeithasol wedi galluogi dinasyddion cyffredin i arsylwi ar ddulliau gweithredu'r ddemocratiaeth tan reolaeth a geir yn Rwsia drostynt eu hunain.

Yn syth wedi i'r canolfannau pleidleisio gau, llenwyd YouTube â recordiadau oedd yn dangos sut y chwyddwyd y bleidlais dros Rwsia Unedig (Plaid Putin). Ffilmiwyd rhai oedd yn disgrifio sut y llwgrwobrwywyd hwynt neu sut y bygythiwyd hwynt i bleidlais carwsél, esboniodd eraill am sut y dangoswyd iddynt sut i stwffio blychau pleidleisio. Ffilmiwyd darganfyddiadau o bleidleisiau wedi'u cuddio mewn canolfannau pleidleisio oedd eisoes wedi'u llenwi o blaid Rwsia Unedig.

Mae'r grŵp 'Am Etholiadau Gonest' o Moscow wedi dod yn ffocws i wrthwynebiad anffurfiol, gan wneud defnydd helaeth o'r we i gywain ynghyd yr anfodlonrwydd cyhoeddus a dod a degau o filoedd allan i'r strydoedd yng nghanol gaeaf ar gyfer ralïau traddodiadol, gorymdeithiau, a digwyddiadau mwy unigryw, fel Protest y Fodrwy Wen - cadwyn ddynol o 30,000 o bobl ar y palmentydd o gwmpas ffordd gylchol fewnol Moscow gan wisgo'r rubanau gwynion sydd wedi dod yn symbol o'r mudiad.

Dull creadigol arall ar brotest wleidyddol oedd yr hyn a welwyd yn y ddinas Siberiaidd Barnaul, lle bu i weithredwyr oedd wedi methu ennill trwydded am rali, drefnu protest o dedi bêrs, dolis a ffigyrau tegan oll yn dal placardiau bychain ac arnynt sloganau'r mudiad.

Yn ystod y gaeaf diwethaf gwelwyd y trafodaethau gwleidyddol mwyaf agored ers cenhedlaeth yn Rwsia, ynghyd â dychweliad dychan gwleidyddol pigog, ond profir cryfder a chadernid gwrthwynebiad anffurfiol Rwsia yn ystod y misoedd i ddod. Mae'r anfodlonrwydd am y system ganolog o lywodraethu o'r brig i lawr a grëwyd yn ystod arlywyddiaeth gyntaf Putin i'w weld ar draws y sbectrwm gwleidyddol.

Ymunodd Comiwnyddion a chenedlaetholwyr yn y protestiadau, yng nghyd â phobl sydd am weld Rwsia'n datblygu mewn dull mwy rhyddfrydol a democrataidd, yn ogystal â'r sawl sydd heb ymlyniad penodol. Ar hyn o bryd, gall y grwpiau hyn gytuno'n unig ar eu gwrthwynebiad i Putin. Amser a ddengys os gellir uno ideolegau mor anghymesur. Nid oes arweinydd cydnabyddedig i'r mudiad. Efallai mai'r ffigwr amlycaf hyd yma yw Alexei Navalny, cyfreithiwr wedi'i addysgu yn yr UDA ac ymgyrchwr gwrth-lwgrwobrwyaeth. Ond ystyrid Navalny hefyd yn ffigwr dadleuol, gan fod ei syniadau cenedlaetholgar yn destun anhoffter i lawer.

Yn olaf, bydd rhaid gwneud llawer er mwyn dyfnhau cefnogaeth i'r mudiad



*Vladimir Putin Credit: Swyddfa Arlywaethol a Gwybodaeth*

hwn, os yw am oroesi. Mae Putin yn wirioneddol boblogaidd ymysg llawer o'r Rwsiaid, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn dinasoedd diwydiannol bychain ac mewn ardaloedd amaethyddol. Dyma'r rhannau o Rwsia y mae pobl ifainc uchelgeisiol yn ceisio dianc rhagddynt, lle bydd cyflogaeth yn aml yn dibynnu ar ddosbarthiad adnoddau'r wladwriaeth gan swyddogion ar risiau isaf yr ysgol wleidyddol sy'n ymestyn yr holl ffordd i'r Kremlin.

Bydd angen perswadio'r rhannau hynny o'r gymdeithas Rwsiaidd, sy'n gweld Putin fel ffynhonnell angenrheidiol o sefydlogrwydd gwleidyddol a ffyniant economaidd, fod dewis arall posibl ar gael a fydd yn sicrhau y byddant, o leiaf, yn byw bywyd o safon gymesur i'w bywydau ar hyn o bryd.

Nid oes amheuaeth fod system wleidyddol Putin wedi'i sefydlu'n gadarn. Fe'i hadeiladwyd dros flynyddoedd, ac y mae'n seiliedig ar rwydweithiau nawdd nas gellid mo'i dinistrio'n hawdd nac yn gyflym. Ond byddai Putin yn annoeth i fychanu'r mudiad hwn.

Bu cannoedd o ymgeiswyr o'r gwrthbleidiau yn llwyddiannus mewn etholiadau trefol diweddar, gan ennill seddi ar gynghorau lleol a'r faeryddiaeth mewn dinasoedd o faint sylweddol fel Tolyatti a Yaroslavl. Ceir, yn yr etholiadau lleol a rhanbarthol a gynhelir ym mis Hydref, gyfle arall iddynt ennill hygrededd ger bron y pleidleiswyr, a datblygu'n bŵer sylweddol mewn gwleidyddiaeth Rwsiaidd.



*Protest mis Rhagfyr*
*Credit: Зураб Заваxадзе*

GWYDDOR CHWARAEON AC YMARFER CORFF

# Degawd o Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff

Roedd Gerald Davies CBE, a Chymrawd ym Mhrifysgol Aberystwyth, un o'r asgellwyr gorau i chwarae rygbi erioed, a chyn flaenasgellwr y Sgarlets a Chymru, Dafydd Jones, yn westeion anrhydeddus mewn swper mawreddog i ddathlu 10 mlwyddiant yr Adran Chwaraeon a Gwyddorau Ymarfer Corff ar ddydd Sadwrn y 26ain o Fai.



*Dd i Ch: Gerald Davies CBE, Dr Joanne Hudson, Yr Athro April McMahon a Dafydd Jones*

Gan ddychwelyd naw mlynedd wedi agor yr adeilad Carwyn James pwrpasol, a enwyd ar ôl y cyn-fyfyriwr o Aberystwyth a hyfforddwr y Llewod ar eu taith fuddugoliaethus yn Seland Newydd yn 1971, talodd Gerald Davies deyrnged i waith yr Adran a'r Brifysgol.

Wrth annerch staff, cyn aelodau o staff, myfyrwyr, aelodau o gymdeithasau chwaraeon lleol a phartneriaid ymchwil o'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, soniodd am bwysigrwydd chwaraeon fel rhan o addysg prifysgol a'i swyddogaeth o gynnal cymdeithas wâr.

Mewn darlith a ddisgrifiwyd gan bennaeth yr Adran Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff, Dr Joanne Hudson fel "y ddarlith Gregynog amgen", bu Dafydd Jones yn siarad am sut mae rygbi wedi newid dros y blynyddoedd.

Gan ateb cwestiynau gan y gynulleidfa, trafododd Jones y pwyslais cynyddol ar gryfder corfforol yn y gêm fodern, gyda'r dulliau hyfforddi newydd gwyddonol sy'n cynnwys y defnydd o siambrau criogenig; ac o orfod ymddeol yn gynnar wedi iddo dderbyn triniaeth lawfeddygol i ailadeiladu ei ysgwydd dde ar dri achlysur gwahanol.

"Efallai mai ffocws y noswaith oedd chwaraeon," dywedodd, Dr Joanne Hudson, "ond mae hi'n bwysig cydnabod y cyfraniad a wneir gan gydweithwyr mewn meysydd fel iechyd a sut mae ymarfer corff yn chwarae rhan mor bwysig wrth wella bywydau dyddiol pobl - o fyw gyda diabetes i wella cydbwysedd ac osgoi cwympo ymysg yr henoed."

Ymysg y sawl oedd yn bresennol oedd Yr Athro Jo Doust, Pennaeth cyntaf yr Adran, a Mrs Penny Barrett, gweddw'r diweddar Athro John Barrett, gwr a chwaraeodd rôl mor bwysig fel Pennaeth Dros Dro yn ystod blynyddoedd ffurfiannol yr Adran.

NEWYDDION PRIFYSGOL

# Meithrinfa Blant Newydd

Mae meithrinfa blant newydd y Brifysgol ar Riw Penglais, a adeiladwyd i'r pwrpas, bellach ar agor.

Yn gofrestredig gyda Mudiad Meithrin a'r Wales Primary Play Association, mae Meithrinfa Penglais ar agor rhwng 8yb a 6yh ac ynddo ceir lle ar gyfer 73 o blant hyd at 8 mlwydd oed. Y mae hefyd yn cynnwys yr uned fabanod a fu, tan yn ddiweddar, yn Neuadd Rosser.

Dywedodd Rheolwraig y Feithrinfa Eleri Morris, "Yr ydym falch dros ben o fod yma ac edrychwn ymlaen at ymgartrefi yn yr adeilad hyfryd hwn. Gan fod gennym fwy o ystafelloedd a lle yma, sy'n cynnwys lleoliad i chwarae y tu allan, byddwn yn medru croesawi mwy o blant sydd yn gam cadarnhaol tuag ymlaen inni oll."

Am fwy o wybodaeth am y gwasanaethau a gynigir ym Meithrinfa Penglais wele www.aber.ac.uk/cy/childcare neu ffoniwch / e-bostiwch 01970 622233 / elm@aber.ac.uk

## URDD Y MYFYRWYR



Bu'n flwyddyn herfeiddiol i Urdd y Myfyrwyr, ond fel tîm yr ydym wedi cyflawni cymaint eleni i gefnogi a gwella'r profiad myfyriwr, a hefyd i ddechrau symud yr Urdd i gyfeiriad newydd a chyffrous.

Lluniasom ddogfen yn dwyn y teitl "Cynllun Profiad Aber" ac ynddi amlinellom ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol yr Urdd, gan sylweddoli fod angen inni newid fel undeb y myfyrwyr mewn tirwedd Addysg Uwch gyfnewidiol.

Mae cynllun strategol yn cael ei lunio ar hyn o bryd i ganlyn y ddogfen hon a fydd yn chwarae rhan fawr yn ein gyrru yn ein blaenau dros y tair blynedd nesaf gyda'r bwriad o sicrhau mae ni fydd yr Undeb orau yn y DG!

Er mwyn rhoddi cyfle i'n myfyrwyr gyfrannu at y sgwrs strategol bu inni lansio ein harolwg cyflawn cyntaf am ymron i ddegawd, gan gael ymateb oddi wrth 21% o'n myfyrwyr a chan dderbyn eu barn hwy ar yr hyn y credent y dylai'r Urdd fod yn ei gyflawni. Derbyniodd dau gyfrannwr iPad newydd yr un.

Wrth drafod arolygon, llwyddasom hefyd i gael y Brifysgol i roddi punt am bob un o'r ymatebwyr i'r Arolwg Cenedlaethol o Fodlonrwydd Myfyrwyr eleni, ac arweiniodd hyn at £1456 yn cael ei roddi i'n cronfa gymorth i fyfyrwyr tan amodau economaidd anodd.

Eleni hefyd lansiwyd gennym ein Gwobrau tan Arweiniad Myfyrwyr cyntaf. Pleidleisiodd y myfyrwyr mewn wyth categori i enwebi'r darlithwyr a'r staff cynorthwyol y credent oedd wedi darparu cyfraniad gwych i'w cyfnod yn Aberystwyth.

Cynorthwyom i lobio'r awdurdodau lleol i ganiatáu i hen adeilad y goron i gael ei ddatblygu'n 51 fflat newydd i fyfyrwyr, sy'n gryn gyflawniad gan y bydd yn rhyddhau lle yn y sefyllfa lety gorlawn sydd yn bodoli yn Aberystwyth ar hyn o bryd.

Dros y misoedd nesaf bydd Urdd y Myfyrwyr yn gweld nifer o newidiadau mawrion, a'r cyntaf fydd ein symudiad yn ôl i fod yn 'Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth'. Bydd hyn yn gweithredu fel catalydd i restr hir o newidiadau strategol y bwriadwn eu cyflawni dros yr haf sydd hefyd yn cynnwys adnewyddu'r adeilad, gwefan newydd a'r model 'Cynulliad Myfyrwyr' democrataidd (symudiad i ffwrdd wrth y Cyfarfodydd Cyffredinol).

Er mawr dristwch inni, dyma'r adeg o'r flwyddyn hefyd lle byddwn yn colli rhai aelodau o Dîm yr Urdd wrth inni ddechrau ar gyfnod o drosglwyddo'r awenau, ond eleni yr ydym wedi gweld gwaith gwych gan Tammy Hawkins (Materion Cymreig a Chymraeg ac UMCA), Tom Burmeister (Cefnogaeth Myfyrwyr) ac Alun Minifey (Gweithgareddau).

Gan **Ben Meakin**, Arlywydd, Urdd y Myfyrwyr

## Y Swyddogion Sabothol etholedig am y flwyddyn academaidd nesaf fydd:

| Safle | Enillydd |
|---|---|
| Llywydd | **Ben Meakin** |
| Swyddog Gweithgareddau | **Ioan Rhys Evans** |
| Materion Cymreig a Chymraeg a Llywydd UMCA: | **Carys Thomas** |
| Swyddog Cefnogaeth Myfyrwyr: | **Laura Dickens** |
| Swyddog Addysg: | **Jess Leigh** |

# Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr 2012

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol oedd enillydd y wobr am Adran y Flwyddyn yn y Gwobrau Dysgu tan Arweiniad Myfyrwyr cyntaf i'w cynnal erioed gan Urdd y Myfyrwyr, Aberystwyth, ar ddydd Iau'r 24ain o Fai.

Arweiniwyd y noson gan Swyddog Addysg yr Urdd, Jess Leigh, a'r Athro John Grattan, y Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Dysgu, Addysgu, a Chyflogadwyedd, a bu'n ddathliad o ragoriaeth addysgu yn ogystal â chyfraniad y staff cynorthwyol a chynrychiolwyr y myfyrwyr.

Derbyniwyd dros 200 o enwebiadau oddi wrth fyfyrwyr.

Dywedodd trefnydd y digwyddiad, Jess Leigh: "Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr oherwydd ymroddiad y staff a'r myfyrwyr yr oedd yn gyfle i fyfyrwyr ddiolch a gwobrwyo staff y Brifysgol am eu gwaith.




*Dr James Vaughan yn derbyn Gwobr Adran y Flwyddyn ar ran Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.*


### A'r buddugwyr yw....

| Gwobr | Enillydd |
|---|---|
| Y Wobr am yr Addysgu mwyaf Creadigol / Blaengar | **Yr Athro Alex Maltman** (IGES) |
| Y Wobr am Addysgu Trwy Dechnoleg | **Dr Hazel Davey** (IBERS) |
| Staff Gweinyddol y Flwyddyn | **David Price** a **Phil Jones** (Yr Ysgol Gelf) |
| Cynrychiolydd Cwrs y Flwyddyn | **Gemma Western** (Yr Ysgol Gelf) |
| Tiwtor Personol y Flwyddyn | **Dr Jayne Archer** (Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol) |
| Cysylltiadau Cyflogadwyedd | **Carolyn Parry** (Gwasanaethau Gyrfaoedd) |
| Y Wobr Dysgu Pwyllgor Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr (PYSM) | **PYSM Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff** |
| Adran y Flwyddyn | **Gwleidyddiaeth Ryngwladol** |

Gellir gweld manylion pellach am y buddugwyr a'r rhai a ddaeth yn ail agos ar-lein ar:
www.aberguild.co.uk/cy/eich-undeb/newyddion/1-latest-news/591-student-led-teaching-awards

GWASANAETHAU LLYFRGELL

# Astudiaeth beilot E-lyfrau


Julie Hart

Mae nifer yr e-lyfrau academaidd wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae nifer o brifysgolion wedi dechrau arbrofi gyda 'Patron Driven Acquisition' (PDA) ar gyfer e-lyfrau, sy'n cynnig y cyfle i ddarparu casgliad llawer mwy o lyfrau i gwsmeriaid am ffracsiwn o'r gost o roi pob llyfr ar y silff.

PDA yw'r term a ddefnyddir gan lyfrgelloedd i ddisgrifio dull caffael ar gyfer cynnwys a ddewisir gan gwsmeriaid yn hytrach na llyfrgellwyr.

Mae'r dull hwn ar hyn o bryd yn rhan o astudiaeth beilot yn y Brifysgol. Bydd y data a gesglir yn sail i ystyriaethau'r Brifysgol wrth iddynt bwyso a mesur os dylid dewis PDA fel rhan barhaol o broses gaffael y Brifysgol.

Dywedodd Julie Hart, Pennaeth Gwasanaethau Llyfrgell, "Mae PDA yn caniatáu i ddefnyddwyr y llyfrgell ganfod y llyfrau y carent ddarllen cyn i'r llyfrgell eu prynu. Golyga hyn na fydd y llyfrgell ddim yn talu am ddim, ac eithrio'r hyn sy'n addas at ofynion y defnyddwyr.

"Dewisom dargedu meysydd penodol, yn bennaf er mwyn llunio arolwg hawdd i'w weithredu. Dewiswyd y pynciau gan eu bod naill ai'n destun astudiaeth i nifer fawr o bobl sy'n astudio o bell, neu gan fod arolwg blynyddol myfyrwyr ar Wasanaethau Gwybodaeth wedi dangos fod anfodlonrwydd gyda'r nifer neu'r ystod o lyfrau sydd ar gael yn y llyfrgell yn y meysydd penodol hynny.

"Mae'r arolwg wedi bod yn rhedeg ers deufis bellach, ac yn yr amser hynny yr ydym wedi prynu 198 o e-lyfrau. Mae'r defnydd a wnaed ohonynt hyd yma wedi bod yn galonogol. Ers i'r cynllun peilot ddechrau, mae pob e-lyfr PDA wedi cael ei ddefnyddio 3.51 o weithiau, ar gyfartaledd, o'i gymharu â defnydd o 2.30 o weithiau ar gyfer e-lyfrau a brynwyd yn y dull traddodiadol.

"Ym mis Mai 2011 defnyddiwyd e-lyfrau 152 o weithiau; mae'r nifer hwn wedi codi yn sylweddol i 1,367 ym mis Mai 2012. Mae e-lyfrau PDA yn awr yn gyfwerth â 37% o ddaliadau e-lyfrau ein cyflenwyr, ac ym mis Mis mai yr oeddent yn cyfrif am 40% o'r defnydd o e-lyfrau.

RHEOLAETH A BUSNES

# Arweinyddiaeth yn y Llynges


Yr Athro Andrew St George

Mae'r llawlyfr cyntaf mewn bron i 50 mlynedd ar arweinyddiaeth o fewn y Llynges Frenhinol wedi cael ei gynhyrchu gan yr Athro Andrew St George, Cymrawd Addysgu MBA yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes.

Cafodd y gyfrol ei hysgrifennu dros gyfnod o dair blynedd a chaniatawyd mynediad llawn i'r awdur i'r Llynges Frenhinol ar bob lefel. Yn ôl y cyhoeddwyr Random House mae Royal Navy Way of Leadership yn "lyfr diffiniol ar arweinyddiaeth mewn busnes ac mewn bywyd gan un o ymarferwyr arweinyddiaeth fwyaf blaenllaw'r Deyrnas Gyfunol".

Mae 15,000 o gopïau o'r llyfr wedi eu dosbarthu gan y Llynges Frenhinol i bob un o'i swyddogion, rheolwyr uwch, a'i holl sefydliadau hyfforddi cenedlaethol a rhyngwladol.

Hwn yw'r darn mwyaf o ymchwil ar arweinyddiaeth y Llynges Frenhinol sydd wedi ei wneud erioed. "Mae popeth sydd yn y llyfr yma oherwydd ei fod yn gweithio, ac wedi ei brofi dros filoedd o oriau o hyfforddiant caled, asesiad manwl a mesur absoliwt," meddai Andrew.

"Mae negeseuon y llyfr yn dwyllodrus o syml. Er mwyn llwyddo rhaid i ni feddu ar: eglurder o fwriad; y strategaeth; yr adnoddau; cynllun wrth gefn; a buddsoddiad emosiynol. Maent yn ddaliadau sy'n berthnasol i bob agwedd o fywyd busnes a phersonol: maent yn dod o drefn brwydr Nelson yn Trafalgar."

CYMRAEG

# Pennaeth Adran y Gymraeg

Penodwyd yr **Athro Aled Gruffydd Jones** yn Bennaeth ar Adran y Gymraeg.



Mae'r penodiad am gyfnod o hyd at dair blynedd ac mae'r Athro Jones yn olynu'r Athro Patrick Sims-Williams.

Bydd yr Athro Jones yn parhau yn ei swydd fel Dirprwy Is-Ganghellor Hŷn, ond yn rhoi'r gorau i rai cyfrifoldebau o fewn ei bortffolio, sef Ymchwil, Menter a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Ym mis Mai cafodd ei benodi yn Is-Lywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac mae'n aelod o Banel Hanes Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014.

SAESNEG ac YSGRIFENNU CREADIGOL

# Gwrachod yn y Gelli

Mae casgliad o gerddi newydd gan **Damian Walford Davies** yn cynnig darlun o ofnau pentref yn Suffolk yn ystod erledigaeth gwrachyddiaeth yn y 1640au. Cafodd 'Witch' ei gynnwys ar y Llwyfan Digidol yng Ngŵyl y Gelli eleni, un o ddigwyddiadau celfyddydol a deallusol mwyaf blaenllaw'r DG.

Noddwyd y derbyniad wedi'r cyflwyniad gan Brifysgol Aberystwyth. Yno soniodd yr Athro Aled Gruffydd Jones, y Dirprwy Is-Ganghellor Hŷn, am y pwysigrwydd o gefnogi ymdrech greadigol, sydd, wrth galon cenhadaeth y Brifysgol.


*Yr Athro Aled Gruffydd Jones, Uwch Dirprwy Is-Ganghellor yng Ngŵyl y Gelli 2012 (chwith) a'r Athro Damian Walford Davies, Pennaeth yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol*

POBL ABER

# Y Ffagl Olympaidd yn goleuo Aber

Ar ddydd Sul y 27ain o Fai, croesawodd Aberystwyth y Ffagl Olympaidd i'r dref ger bron torf o 8000 o bobl yng Nghaeau Chwarae'r Ficerdy.



Wrth i'r ffagl gyrraedd y maes ei chludwr oedd Kyle Thomson, 16 mlwydd oed, a hebryngodd ef y ffagl i'r llwyfan i gymeradwyaeth wresog.

Teithiodd y ffagl o gwmpas y dref ar ddydd Llun, gan fynd i gopa Craig Glais, ar hyd y Prom, heibio i'r Hen Goleg, ac yna i fyny i'r Llyfrgell Genedlaethol, cyn gadael ar hyd Rhiw Penglais tua Bow Street ac ymlaen i Fangor.

Enwebwyd dau fyfyriwr a dau aelod o staff i fod yn gludwyr y ffagl ar gymal Ceredigion o'r daith hirfaith o gwmpas Prydain, oll yn arwain at Lundain 2012.

Mae Susanna Ditton yn fyfyrwraig ail flwyddyn yn y Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear (IGES) ac fe'i henwebwyd i gario'r ffagl oherwydd ei hanes ysbrydolgar. Pan oedd hi'n eneth ifanc, goresgynnodd broblemau â'i hasgwrn cefn a bwlian, ac yn fwy diweddar, treuliodd amser yn yr Affrig lle bu am chwe mis yn gwirfoddoli ac yn dysgu mewn ysgol ddifreintiedig yng Nghenya. Mae'r eneth 21 mlwydd oed yn redwraig traws-gwlad frwd, ac yn aelod o Glwb Rhedeg Harriers y Brifysgol.



Yr Athro Qiang Shen

Enwebwyd Bridget James, hyfforddwraig ffitrwydd ac achub bywyd yn y Ganolfan Chwaraeon, gan ei chlwb rhedeg, Clwb Athletau Aberystwyth. Sefydlodd Bridget a'i gŵr Apêl Elain yn 2011 wedi i'w merch, sy'n dioddef o Afiechyd Cynhenid y Galon a Syndrom Deletion, dreulio pum mis yn yr ysbyty yn 2010. Mae'r apêl yn cefnogi pedair elusen a fu'n allweddol mewn darparu gofal o safon ar gyfer y teulu. Mae Bridget hefyd yn redwraig ac yn nofwraig frwd, ac yn hoff iawn o'r gymnasiwm, yn ogystal â bod yn Hyfforddwraig Athletau a Throelli hyd at lefel dau'r DG.



Bridget James y tu allan i'r Llyfrgell Genedlaethol

Cludodd Shon Rowcliffe, myfyriwr blwyddyn gyntaf, 19 mlwydd oed, yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, y ffagl trwy bentref Brynhoffnant ger Aberteifi ar ddydd Sul y 27ain o Fai. Yn wreiddiol o Bencader yn Sir Gaerfyrddin, dioddefa Shon o syndrom Noonan, afiechyd genetig sy'n achosi datblygiad anarferol mewn nifer o rannau o'r corff ac sy'n effeithio ar o leiaf un plentyn ym mhob 2,500.

Cariodd yr Athro Qiang Shen, Pennaeth yr Adran Gyfrifiadureg, y Ffagl Olympaidd trwy Benparcau a chyflwynodd ei gymal ef o'r daith i ddathlu tad cyfrifiadureg fodern, Alan Turing. Wrth siarad wedi ei rediad, dywedodd yr Athro Shen: "Mae 2012 yn dynodi can mlwyddiant geni Alan Turing, sylfaenydd cyfrifiadureg a deallusrwydd artiffisial, ac un o eiconau ymgyrch dorri codau'r Ail Ryfel Byd. Yr oedd hi'n fraint i gael fy newis i gario'r Ffagl Olympaidd ac i gyflwyno fy nghymal o'r daith er cof amdano."

CYFATHREBU A MATERION CYHOEDDUS

## Oes gennych newyddion ar ein cyfer?

Os oes gennych unrhyw newyddion am lwyddiant personol anfonwch nhw at cyfathrebu@aber.ac.uk


POBL ABER

# Penodiadau



## Swyddfa Newydd yr Is-Ganghellor

Mae chwe phenodiad newydd wedi'i wneud yn swyddfa'r Is-Ganghellor, sy'n gyfrifol am dasgau mor amrywiol â darpariaeth cymorth weinyddol i reoli prosiectau a pholisi.



**Alwena Hughes Moakes**

Swyddog Polisi a Thîm Rheoli, yn rheoli Swyddfa'r Is-Ganghellor a drafftio papurau polisi ac adroddiadau ar ran Tîm Rheoli'r Brifysgol.



**Nerys Hywel**

Cynorthwy-ydd Personol i'r Is-Ganghellor, Dr Catrin Hughes a'r Athro Aled Gruffydd Jones.



**Charles Lloyd Harvey**

Cynorthwy-ydd Personol i'r Athro Martin Jones a Ms Rebecca Davies.



**Debbie Prysor**

Cynorthwy-ydd Personol i'r Tîm Rheoli i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a'r Athro John Grattan, a darparwr cymorth gweinyddol i'r Swyddfa Gynllunio a Swyddfa'r Is-Ganghellor.



**Sara Jones**

Ysgrifennydd Dyddiadur

**Rhiannon Davies**

Derbynnydd

## Y Sefydliad Mathemateg a Ffiseg




Mae'r **Athro Andrew Evans** wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr ar y Sefydliad Mathemateg a Ffiseg. Arbeniga'r Athro Evans, sydd wedi gweithio yn y Brifysgol ers 1997, ar ddeunyddiau wedi'u gwneuthur o garbon (molecylau organig a diemyntau) a'u nodweddion gan ddefnyddio goleuni, electronau, pelydrau x ac ymbelydredd syncrotron.

## Adran Chwaraeon a Gwyddorau Ymarfer Corff



Mae **Dr Joanne Hudson** wedi'i phenodi'n Bennaeth ar yr Adran Chwaraeon a Gwyddorau Ymarfer Corff. Dysgodd Joanne chwaraeon a gwyddor ymarfer corff ers 1996 ac y mae wedi gweithredu fel ymgynghorydd seicoleg chwaraeon i athletwyr dros ystod o chwaraeon, gan gynnwys rhai ar lefel ryngwladol.

## Dirprwy Ddeon Gwyddoniaeth



Penodwyd **Dr Martin Wilding**, Uwch Ddarlithydd yn y Sefydliad Mathemateg a Ffiseg, yn Ddirprwy Ddeon y Gwyddorau. Mae Dr Wilding yn ymchwilio i strwythur a nodweddion strwythur-berthnasol gwydr, deunyddiau a hylifau crisialog, yn arbennig o dan bwysau a thymheredd eithafol. Mae'n defnyddio technegau diffreithiant pelydr x a niwtronau pwerus mewn canolfannau ymchwil cenedlaethol yn y Deyrnas Gyfunol a'r Unol Daleithiau.

# Ymddeoliadau

## Llinos yn ymddeol ar ôl 40 mlynedd o wasanaeth



Mae ymddeol weithiau yn golygu eistedd yn ôl a rhoi eich traed i fyny, ond dim i Llinos Hunt a ymddeolodd mis diwethaf ar ôl 40 mlynedd o wasanaeth i'r Brifysgol.

Yn ystod y cyfnod yma, mae Llinos wedi gweithio ochr yn ochr â chwe Is Ganghellor - yr un cyntaf oedd Syr Goronwy Daniel.

Bydd Llinos, a oedd yn Gynorthwy-ydd Personol i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol , nawr yn llenwi ei dyddiau yn ysgrifennu, paentio a dysgu Llydaweg.



Bydd **Mrs June Baxter,** ysgrifenyddes yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, yn ymddeol ar y 30ain o Fehefin 2012 wedi 34 blynedd o wasanaeth.

Ar adael yr ysgol yn 1963 dechreuodd June ar ei gwaith yn yr Hen Goleg, ac ar wahan i dorriad o 13 blynedd i fagu ei meibion, y mae wedi gweithio yn y Brifysgol byth oddi ar hynny.

Bydd ei chydweithwyr a'r myfyrwyr yn gweld colli ei gwên groesawgar a'i phersonoliaeth gyfeillgar.

Carem oll ddymuno ymddeoliad hir a phrysur i Llinos a June.

# Llongyfarchiadau


Llongyfarchiadau i **Gruffudd Antur**, myfyriwr yn ei ail flwyddyn yn y Sefydliad Mathemateg a Ffiseg, ar ennill y Gadair yn Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012. Y dasg i'r 13 cystadleuydd am y Gadair eleni oedd cyfansoddi cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 100 llinell ar y testun Cylchoedd. Ynddi, trafoda Gruffudd gylchoedd bywyd gwleidyddol a diwyllianol Cymru. Y beirniaid oedd Rhys Iorwerth ac Ifan Prys. Yn eu beirniadaeth, disgrifiwyd Gruffudd fel "cynganeddwr penigamp, yn gwbl feistrolgar a glân."



DIGWYDDIADUR

YSGOL GELF

# Arddangosfa Christopher Williams




*Christopher Williams ar bwys portread o'r Gwir Anrhydeddus David Lloyd George*

Bydd Robert Meyrick, Pennaeth yr Ysgol Gelf, yn cydlynu'r arddangosfa fwyaf erioed o waith yr arlunydd o Faesteg, Christopher Williams (1873-1934), yr haf hwn. Bydd yr arddangosfa, a fydd yn cael ei chynnal yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru o'r 7fed Gorffennaf - 22ain Medi, yn edrych yn ôl ar yrfa arbennig Williams.

Mae Christopher Williams yn fwyaf adnabyddus am ei bynciau Beiblaidd a mytholegol, megis ei ddelweddau o'r Mabinogion: Ceridwen (1910) - sydd i'w gweld yn y Llyfrgell Genedlaethol yr haf hwn - Branwen (1915) a Blodeuwedd (1930).

Yn ôl Robert Meyrick, "Yn ei ddydd, yr oedd Christopher Williams yn artist hynod o adnabyddus. Yn 1911 cafodd ei gomisiynu gan y Brenin George V i beintio Arwisgiad Edward, Tywysog Cymru yng Nghastell Caernarfon. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, peintiodd Hyrddiad y Cymry yng Nghoedlan Mametz. Peintiodd hefyd bum portread o David Lloyd George.

"Er iddo ddod yn adnabyddus am ei bortreadau a gomisiynwyd o wleidyddion, academyddion, ac arweinwyr crefyddol, ei baentiadau digymell a wnaeth o arfordir Cymru, rhai nad ydynt wedi'u gweld o'r blaen gan y cyhoedd, sy'n rhoi cipolwg i ni ar bersonoliaeth yr artist a'i gariad tuag at Gymru."



*Gwyliau - Emily a Gwyn yn y Bermo, 1917*

Ddisgrifiodd Lloyd George Christopher Williams fel, "un o'r artistiaid mwyaf dawnus i Gymru ei gynhyrchu."

Gan gasglu gweithiau ynghyd o archifau, casgliadau preifat a chasgliadau cyhoeddus, lawer ohonynt nas gwelwyd yn gyhoeddus o'r blaen, hon fydd yr arddangosfa fwyaf cynhwysfawr a baratowyd erioed i arddangos corff eang o waith yr artist."

THEATR, FILM a THELEDU

# Coriolan/us



*Yr Athro Mike Pearson (chwith) a Mike Brooks*

Mae fersiwn fodern o drasiedi Shakespeare, Coriolan/us, yn cael ei llwyfannu mewn ysgubor awyrennau ym Morgannwg yn ystod yr ail a'r drydedd wythnos ym mis Awst fel rhan o Ŵyl Shakespeare'r Byd.

Cyd-gyfarwyddir y cynhyrchiad o eiddo Theatr Genedlaethol Cymru gan Mike Pearson a Mike Brookes o'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Wedi'i seilio ar fywyd yr arweinydd Rhufeinig chwedlonol Caius Marcius Coriolanus, ac wedi'i ysbrydoli gan yr oes hon o newyddion 24 awr, CCTV, ac ansefydlogrwydd a newid gwleidyddol, bydd y cynhyrchiad yn cynnwys 'peiriant theatr' wedi'i adeiladu yn Hangar 858, yn RAF Sain Tathan.

Mae Coriolan/us yn gynhyrchiad ar y cyd ar gyfer Gŵyl Shakespeare'r Byd, sy'n cael ei drefnu gan y Cwmni Shakespeare Brenhinol ar gyfer Gŵyl Llundain 2012.

Perfformir y ddrama yn RAF Sain Tathan, Morgannwg, ar 8fed - 11eg a'r 15fed - 18fed o Awst

Gellir gweld manylion pellach yma
nationaltheatrewales.org/whatson/performance/ntw21

HANES a HANES CYMRU

# Seliau o'r Oesoedd Canol

Mae arddangosfa sy'n arddangos ymchwil prifysgolion Aberystwyth a Bangor ar seliau o'r oesoedd canol yng Nghymru rhwng 1200-1550 i'w gweld ar hyn o bryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.



*Seilir Seliau yn eu cyd-destun: Cymru a'r Mers yn yr Oesoedd Canol* ar brosiect sydd wedi'i gyllido gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, ac sydd wedi recordio dros 3,500 o seliau er mwyn archwilio agweddau ar gymdeithas, economi, gwleidyddiaeth, crefydd, a mynegiannau hunaniaethol yr oesoedd canol mewn ffyrdd newydd.

Ceir yn yr arddangosfa seliau ffigyrau cyfarwydd fel Llywelyn ap Iorwerth, tywysog Gogledd Cymru yn gynnar yn y 13eg ganrif, a sêl blwm Bulla Pabaidd y Pab Annwyl III, hefyd o'r 13eg ganrif. Ymysg y seliau hefyd mae seliau pobl gyffredin i'w gweld; dinasyddion a gwragedd a gwerinwyr, gyda'i amrywiaeth o fotiffau diddorol: sgwarnogod yn reidio ar gefnau bytheiaid, ffigyrau grotesg, golygfeydd hela, ac yn y blaen.

Yr Athro Phillipp Schofield o Adran Hanes a Hanes Cymru sydd yn arwain y prosiect hwn. Mae'r arddangosfa yn parhau tan ddiwedd Medi.